

ASTUDIAETH ACHOS Myfyriwr Biotechnoleg

Cyflogwyr y Lleoliad: Roedd y lleoliad cyntaf yn "Ysgol yr Amgylchedd, Adnoddau Naturiol a Daeryddiaeth" a'r ail leoliad gyda "Suprex Cyf"

Beth yw GO Wales?

Mae project 'GO Wales', sydd wedi ei leoli ym Mhrifysgol Bangor, yn helpu myfyrwyr i ddatblygu eu sgiliau cyflogadwyedd a chynyddu eu cyfle o gael swydd addas i raddedigion ar ôl gadael y brifysgol.

Am y myfyriwr/myfyrwraig

Roedd y myfyriwr yn ei ail flwyddyn yn astudio Biotechnoleg. Nid oedd ganddo unrhyw brofiad gwaith cysylltiedig â gyrfa neu brofiad cyfweiliad ffurfiol. Roedd yn awyddus i symud ymlaen i swydd ymchwil ym maes biotechnoleg, ond nid oedd ganddo gysylltiadau na'r rhwydweithiau i symud ymlaen â hyn.



Soniwch beth wnaeth i chi benderfynu cymryd rhan yn y project GO Wales i ddechrau? Roeddwn i'n meddwl bod GO Wales wedi swnio fel cyfle gwych i allu ehangu fy sgiliau ochr yn ochr â'm hastudiaethau academaidd, yn ogystal â hybu fy nghyfleoedd i gael gwaith.

Pa fath o gyfleoedd profiad gwaith wnaeth Cynghorwyr GO Wales eu trefnu i chi? Roedd fy lleoliad cyntaf yn canolbwyntio ar ymchwil ac yn edrych ar ddatblygu mathau o datws sy'n gwrthsefyll malltod hwyr (*Phytophthora infestans*). Treuliais lawer o'm hamser yn cynnal ymchwil sylfaenol a thrin data ar gyfer yr astudiaeth. Roedd yr ail leoliad gyda Suprex Cyf ac roedd yn cynnwys gweithio mewn labordy sy'n cynnal gwiriadau rheoli ansawdd, llenwi â hylif a thynnu blasau gan ddefnyddio CO2 uwchgritigol.

A oedd y profiad gwaith yn berthnasol i'r llwybr gyrfa rydych chi'n gobeithio ei ddilyn?

Oedd, roedd y profiad gwaith yn gyfle gwych i mi ddysgu sut beth yw gweithio mewn amgylchedd diwydiannol.

Ydych chi'n teimlo eich bod wedi cyflawni'r amcanion? Rwy'n teimlo fy mod wedi cyflawni'r rhan fwyaf o'r amcanion a osodais i mi fy hun ac wedi dysgu llawer mwy am sut beth yw gweithio mewn cwmni biotechnoleg, a dysgu'r gweithdrefnau a ddefnyddir gan wyddonwyr i gasglu a phrosesu data.

Fedrwch chi ddisgrifio unrhyw sgiliau newydd wnaethoch chi eu dysgu nad oeddech chi'n disgwyl eu dysgu? Un o'r prif sgiliau a ddysgais oedd rheoli amser yn effeithiol rhwng fy maich gwaith astudio/arholiadau a gwneud profiad gwaith. Ers cwblhau fy mhrofiad gwaith, rwy'n teimlo fy mod wedi ehangu fy sgiliau a'm gwybodaeth y tu allan i'r byd academaidd.

Ydych chi'n teimlo bod y cyfle gwaith hwn wedi eich helpu i ddod dros unrhyw rwystrau? Mae wedi fy helpu i ennill hyder ynof fi fy hun, gan wybod bod gen i rywffaint o brofiad gwaith sy'n berthnasol i'r hyn yr wyf yn ei astudio. Rwy'n teimlo'n llawer mwy hyderus ynof fi fy hun o ran cysylltu â chyflogwyr posibl yn y dyfodol.

Beth oedd uchafbwyntiau gweithio yn y lleoliadau hyn? Uchafbwynt fy lleoliad oedd tra roeddwn i'n gweithio yn Suprex Cyf, yn defnyddio eu peiriant CO2 uwchgritigol i dynnu blasau fanila a the gwyrd. Roedd hi hefyd yn hyfryd iawn cwrdd â'r holl bobl yn ystod fy lleoliadau.

Pa gyngor fydddech chi'n ei roi i fyfyrwyr sy'n ystyried gwneud cais i GO Wales?

Mae'n broiect sy'n bendant yn werth gwneud cais amdano. Roedd cynghorwyr GO Wales yn rhyfeddol a chyfeillgar - yn fy helpu i ddod o hyd i'r profiad gwaith cywir a threfnu teithio i/o'm lleoliad.